

Arolygiad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) Arolygiad Dilynol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Delweddu Diagnostig / Ysbyty

Aberhonddu ac Ysbyty

Llandrindod / Bwrdd Iechyd

Addysgu Powys

Dyddiad yr arolygiad: 6 a 7

Tachwedd 2017

Dyddiad cyhoeddi: 8 Chwefror
2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	7
	Ansawdd profiad y claf	10
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	13
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	17
4.	Beth nesaf?	25
5.	Sut rydym yn cynnal arolygiadau dilynol	26
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad ...	27
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	28
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	29

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod pobl yng Nghymru'n derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: mae profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud
- Gonestrwydd: rydym yn agored ac yn onest yn y ffordd rydym yn gweithredu
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud dyfarniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn yr ydym yn ei weld
- Cydweithredu: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: rydym yn gweithredu'n effeithlon, yn effeithiol ac yn gyfatebol.

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Rhoi sicrwydd:

Rhoi barn annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliannau trwy adrodd a rhannu arferion da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisiâu, safonau ac arferion.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dilynol Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) lle rhoddwyd rhybudd o'r adrannau radiograffeg (yn bennaf) a theatr yn Ysbyty Aberhonddu ac Ysbyty Llandrindod ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys ar 6 a 7 Tachwedd 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC, arolygydd AGIC cynorthwyol a dau uwch-swyddog clinigol o grŵp datguddiadau meddygol Public Health England, yn cyflawni swyddogaeth gynghori. Arweiniwyd yr arolygiad gan reolwr arolygu AGIC.

Ceir manylion pellach am y modd yr ydym yn cynnal arolygiadau dilynol yn Adran 5.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Gwnaed sylwadau cadarnhaol gan gleifion am eu profiadau o ymweld â'r adrannau.

Canfuom fod rhywfaint o gynnydd wedi cael ei wneud i roi sylw i'r gwelliant yr oedd ei angen a nodwyd o'n harolygiad diwethaf.

Roedd angen diwygio a diweddarau rhai o weithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr ymhellach. Hefyd, mae'n rhaid gwneud ymdrechion pellach i ddangos bod staff sy'n cyflawni swyddogaethau ymarferwyr a gweithredwyr wedi eu hyfforddi'n briodol, yn gymwys a bod ganddynt hawl i wneud hynny.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Gwnaeth cleifion sylwadau cadarnhaol am ddull ac agwedd y staff
- Canfuom fod gwelliannau wedi cael eu gwneud o ran staff yn cael mynediad at bolisiau a gweithdrefnau cyfredol
- Canfuom fod ymdrechion wedi cael eu gwneud i gynyddu ymwybyddiaeth staff o'r weithdrefn sy'n ymwneud ag adrodd digwyddiadau RhYŷ(DM)
- Roedd cynnydd wedi cael ei wneud i ddangos hyfforddiant staff

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen diwygio a diweddarau Polisi Diogelwch Ymbelydredd Ïoneiddio'r bwrdd iechyd a rhai o weithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr ymhellach i hybu eglurder a dull cyson
- Mae angen gwneud ymdrechion pellach i ddangos bod staff sy'n cyflawni swyddogaethau ymarferwyr a gweithredwyr wedi eu hyfforddi'n briodol, yn gymwys a bod ganddynt hawl i wneud hynny.

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn gwasanaethu poblogaeth o tua 133,000 o bobl sy'n byw ar draws ganolbarth Cymru. Caiff gwasanaethau eu darparu' trwy feddygon teulu a gwasanaethau gofal sylfaenol eraill, ysbytai cymuned a gwasanaethau cymunedol yn bennaf. Nid oes gan y bwrdd iechyd ysbyty cyffredinol dosbarth ac mae'n gweithio gyda sefydliadau eraill yng Nghymru a Lloegr i ddarparu'r gwasanaethau hyn.

Arolygwyd yr adrannau radiograffeg yn Ysbyty Coffa Fictoria (y Trallwng), Ysbyty Aberhonddu ac Ysbyty Cymuned Ystradgynlais gan AGIC ddiwethaf ar 13-15 Medi 2016. Gwnaethom ystyried y theatrau yn Ysbyty Aberhonddu yn rhan o'r arolygiad hwnnw hefyd.

Roedd y meysydd allweddol i'w gwella a nodwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Roedd angen adolygu a diweddarau gweithdrefnau'r cyflogwr o ran adnabod cleifion, datguddiadau a chyfiawnhad meddygol-gyfreithiol (cyn delweddu pelydr-X)
- Diwygio'r Polisi Diogelwch Ymbelydredd Ïoneiddio ysgrifenedig er mwyn ychwanegu eglurder ac adlewyrchu trefniadau cyfredol
- Y trefniadau ar gyfer gwneud staff yn ymwybodol o bolisiau a gweithdrefnau cyfredol sy'n ymwneud â RhYŷ(DM), a'u darparu iddynt
- Y trefniadau i sicrhau bod unigolion wedi eu hyfforddi'n briodol, yn gymwys a bod ganddynt hawl fel ymarferwyr a gweithredwyr i gyflawni'r tasgau gofynnol
- Diwygio gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr o ran hawl a nodi deiliaid dyletswyddau i nodi'n eglur grwpiau staff, cwmpas ymarfer a gofynion hyfforddi ar gyfer atgyfeirwyr, ymarferwyr a gweithredwyr â hawl
- Diwygio gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr o ran adrodd digwyddiadau
- Gofynnwyd i'r cyflogwr roi diweddariad i AGIC am y cynnydd o ran penodi Pennaeth Radiograffeg Proffesiynol (swydd a oedd yn wag ar adeg ein hymweliad blaenorol) a manylion sut roedd y cyfrifoldebau

sy'n gysylltiedig â'r swydd hon yn cael eu cyflawni'n effeithiol yn y cyfamser

Diben yr arolygiad hwn oedd gwneud gwaith dilynol ar y gwelliannau uchod yr oedd eu hangen, a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf.

Ystyriodd yr arolygiad dilynol hwn yr adrannau radiograffeg (yn bennaf) a theatr yn Ysbyty Aberhonddu (a arolygwyd yn flaenorol) ac Ysbyty Llandrindod (arolygiad newydd) ar 6 a 7 Tachwedd 2017. Y rheswm am gynnwys yr ysbyty yn Llandrindod oedd ystyried sut yr oedd dysgu o'n harolygiad blaenorol yn 2016 wedi cael ei rannu ar draws y safleoedd ysbyty.

Yn ystod 2016/17, cynhaliodd yr adrannau delweddu diagnostig y nifer fras ganlynol o archwiliadau radiograffeg 'ffilm blaen' cyffredinol:

- Ysbyty Aberhonddu – 5201
- Ysbyty Llandrindod – 6345

Mae'r ddwy adran yn cynnal archwiliadau radiograffeg deintyddol ac mae'r adran yn Ysbyty Aberhonddu hefyd yn cynnal archwiliadau uwchsain meddygol a chynenedigol.

Mae'r adrannau theatr yn y ddau ysbyty yn cynnal archwiliadau gan ddefnyddio offer fflworosgopeg¹ C-arm bach.

Roedd y staff canlynol yn gweithio yn yr adrannau ar adeg ein harolygiad

- Ysbyty Aberhonddu – 0.8 radiograffydd cyfwerth ag amser llawn
- Ysbyty Llandrindod – 1 radiograffydd cyfwerth ag amser llawn

Roedd swyddi gwag ar gyfer radiograffwyr yn y ddwy adran ar adeg ein harolygiad. Roedd staff cronfa yn cael eu defnyddio'n rheolaidd i lenwi bylchau yn y rotâu dyletswydd.

¹ Techneg delweddu meddygol yw fflworosgopeg sy'n defnyddio archwiliadau pelydr-X i gael delweddau symudol amser real.

Cyflogwyd arbenigwyr ffiseg meddygol trwy gytundebau lefel gwasanaeth â bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth GIG gyfagos.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (pan fo'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwnaed sylwadau cadarnhaol gan gleifion am ddull ac agwedd y staff. Dywedodd y cleifion wrthym hefyd eu bod yn teimlo eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu hymchwiliadau pelydr-X.

Roedd yr holl adrannau y gwnaethom ymweld â nhw'n lân ac yn daclus.

Cadarnhaodd cleifion nad oeddent wedi dioddef oediadau wrth fynychu'r adrannau ar gyfer eu hymchwiliadau pelydr-X.

Meysydd i'w gwella a nodwyd gennym yn ein harolygiad diwethaf

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella gennym o ran ansawdd profiad y claf yn ein harolygiad diwethaf.

Yr hyn a ganfuwyd gennym yn yr arolygiad dilynol

Er na nodwyd gennym fod angen unrhyw welliant yn dilyn ein harolygiad blaenorol, gwahoddwyd cleifion i ddweud wrthym am eu profiadau o ddefnyddio'r gwasanaethau yn yr arolygiad dilynol hwn. Diben hyn oedd sicrhau bod safbwynt y cleifion yn parhau i fod yn ganolog i'n dull arolygu. Er mwyn cyflawni hyn, gofynnwyd i'r ddwy adran radiograffeg ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion cyn ein harolygiad. Gwahoddwyd cleifion i siarad â ni yn ystod yr arolygiad hefyd, a rhoddodd dau o gleifion sylwadau.

Cwblhawyd cyfanswm o 37 o holiaduron. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Cynigiwyd gwasanaeth gwych i mi. Mae'r holl staff yn gyfeillgar ac yn arbennig o effeithlon"

"Gwasanaeth rhagorol "

"...wedi cael gwasanaeth da erioed"

"Mae'r holl staff yn dda iawn"

*"Mynediad haws at ystafell aros ac ystafell driniaeth yr adran
(i ddefnyddwyr cadair olwyn)" (Ysbyty Llandrindod)*

Gofal ag urddas

Canfuom fod y staff yn gyfeillgar ac eto'n broffesiynol o ran eu hagwedd. Roedd y sylwadau gan gleifion yn cefnogi hyn. Ychwanegodd rhai cleifion eu sylwadau ychwanegol eu hunain gan ganmol agwedd a dull y staff.

Roedd ciwbiclau newid ar gael yn y ddwy adran radiograffeg y gwnaethom ymweld â nhw. Roedd y rhain yn cynnig preifatrwydd i gleifion pe baent angen newid i/o wisgoedd urddas (ysbyty).

Gwybodaeth cleifion

Roedd arwyddion eglur i'r adrannau radiograffeg ac roedd staff ysbyty wrth law i gynnig cyfeiriadau yn ôl yr angen. Dywedodd y cleifion a gwblhaodd ac a ddychwelodd holiaduron wrthym eu bod wedi gallu canfod eu ffordd i'r adrannau'n rhwydd.

Roedd gwybodaeth i gleifion wedi ei harddangos yn y ddwy adran radiograffeg a/neu ar hysbysfyrddau ym manau cyhoeddus yr ysbytai. Hefyd, dywedodd cleifion a roddodd sylwadau wrthym eu bod yn teimlo eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu hymchwiliadau pelydr-X.

Yn Ysbyty Aberhonddu, roedd poster yn cael ei arddangos yn atgoffa cleifion benywaidd i hysbysu'r staff os oeddent, neu y gallent fod, yn feichiog. Roedd y wybodaeth hon yn cael ei harddangos mewn nifer o wahanol ieithoedd a nodwyd hyn fel arfer nodedig gennym. Nid oedd poster tebyg wedi ei arddangos yn Ysbyty Llandrindod. Pan hysbyswyd staff uwch am ein canfyddiadau, cadarnhawyd ganddynt y byddai trefniadau yn cael eu gwneud i arddangos yr un poster yn y ddau ysbyty. Dylid rhoi ystyriaeth hefyd i arddangos y poster mewn adrannau eraill ar draws y bwrdd iechyd i sicrhau cydymffurfiaid â gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr (Gweithdrefn B).

Gofal amserol

Dywedodd cleifion wrthym nad oeddent wedi dioddef unrhyw oediadau wrth fynychu i gael eu hymchwiliadau pelydr-X. Dywedodd un claf fod angen gwasanaeth y tu allan i oriau yn ei farn ef.

Gofal unigol

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Roedd gwybodaeth yn cael ei harddangos i gleifion a'u gofalwyr am sut i wneud cwyn. Roedd y weithdrefn hon yn cyd-fynd â 'Gweithio i Wella', y trefniadau ar gyfer ymdrin â chŵynion am ofal a thriniaeth a ddarperir gan GIG Cymru.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Ers ein harolygiad diwethaf, roedd y cyflogwr wedi diweddarau'r gweithdrefnau ysgrifenedig sy'n ymwneud ag adnabod cleifion yn gywir, datguddiadau meddygol-gyfreithiol a'r cyfiawnhad a'r awdurdodiad ar gyfer datguddiadau meddygol.

Nodwyd gennym fod angen diwygio rhai o'r rhain a'u diweddarau eto i adlewyrchu arfer cyfredol, i gynnig mwy o eglurder i'r staff ac i hybu dull cyson o sicrhau diogelwch cleifion.

Meysydd i'w gwella a nodwyd gennym yn ein harolygiad diwethaf

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

- Roedd angen adolygu a diweddarau gweithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr o ran adnabod cleifion, datguddiadau meddygol-gyfreithiol a chyfiawnhad ac awdurdodiad.

Pa gamau y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau canlynol yn ei gynllun gwella:

- Diwygio'r gweithdrefnau hynny sy'n ymwneud ag adnabod cleifion a datguddiadau meddygol-gyfreithiol erbyn 1 Chwefror 2017 a'r weithdrefn sy'n ymwneud â chyfiawnhad ac awdurdodiad erbyn 31 Rhagfyr 2016.

Yr hyn a ganfuom yn yr arolygiad dilynol

Cydymffurfio â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)

Dyletswyddau'r cyflogwr

Adnabod cleifion

Roedd gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr (Gweithdrefn A) sy'n ymwneud ag adnabod cleifion wedi cael ei diweddarau ym mis Ionawr 2017.

Er bod rhywfaint o wybodaeth ychwanegol am fân anghysondebau ac anghysondebau mawr wedi cael ei hychwanegu, nid oedd y weithdrefn ysgrifenedig yn adlewyrchu'n briodol o hyd yr archwiliadau ychwanegol y mae'n rhaid i'r staff eu cwblhau pan nodir mân anghysondeb ym manylion claf.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n gallu disgrifio'r gweithdrefnau i'w dilyn ac fe'n sicrhawyd eu bod yn ymwybodol o'r camau i'w cymryd pe bai unrhyw anghysondebau'n cael eu nodi. Fodd bynnag, roedd hyn yn ddibynnol iawn ar ddiwydrwydd y staff ac nid oedd wedi ei ategu gan weithdrefn ysgrifenedig gynhwysfawr.

Hefyd, nid oedd proses ffurfiol ar waith i sicrhau bod manylion cleifion yn cael eu diweddarau / cywiro yn ganolog. Roedd hyn yn golygu y gallai gwybodaeth anghywir gael ei defnyddio wrth wneud cais am ymchwiliadau yn y dyfodol.

Mae adnabod cleifion yn gywir yn bwysig i hybu diogelwch a llesiant y claf². Mae'n rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod gweithdrefn ysgrifenedig gadarn ar waith i hybu dull diogel a chyson o ymdrin â'r agwedd bwysig hon ar ddiogelwch cleifion.

Roedd gwybodaeth ychwanegol am fân anghysondebau ac anghysondebau mawr wedi ei chynnwys yng ngweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr (Gweithdrefn

² Hysbysiad Diogelwch Cleifion PSN026/Ebrill 2016 – Adnabod Cleifion yn Gadarnhaol. <http://www.patientsafety.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1104/PSN026%20Positive%20patient%20identification.pdf>

D) sy'n ymwneud â gwneud atgyfeiriad. Dylid cynnwys y wybodaeth hon yng Ngweithdrefn A hefyd er mwyn sicrhau cyflawnrwydd.

Datguddiadau meddygol-gyfreithiol

Roedd gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr (Gweithdrefn E) sy'n ymwneud â datguddiadau meddygol-gyfreithiol wedi cael ei diweddarau ym mis Ionawr 2017. Roedd hyn yn adlewyrchu bod datguddiadau o'r fath yn cael eu cynnal yn Ysbyty Cymuned Ystradgynlais yn unig. Cadarnhaodd staff uwch fod hyn yn gywir.

Gwnaed cyfeiriad at y ffaith bod yr archwiliadau hyn yn cael eu cynnal dim ond os na ellid cael gafael ar ganlyniad archwiliad blaenorol. Dylai'r cyflogwr ddiwygio geiriad y weithdrefn hon i nodi'r camau a gymerir os bydd datguddiad wedi cael ei gynnal yn flaenorol ond nad yw'r canlyniadau ar gael neu na ellir cael gafael arnynt.

Hefyd, gwnaed cyfeiriad at Sgrinio lechyd Cat II. Mae hwn yn hen derm a dylid dileu unrhyw gyfeiriad ato.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid diweddarau gweithdrefn y cyflogwr (Gweithdrefn A) sy'n ymwneud ag adnabod cleifion i gyfarwyddo'r staff ar ddull diogel a chyson o adnabod cleifion yn gywir cyn cynnal ymchwiliadau.

Trefniadau eraill i hybu proses o adnabod cleifion yn gywir i gael ei sefydlu fel sy'n briodol.

Dylid diweddarau gweithdrefn y cyflogwr (Gweithdrefn E) sy'n ymwneud â datguddiadau meddygol-gyfreithiol i nodi'r eglur y camau i'w cymryd gan y staff os bydd datguddiad wedi cael ei gynnal yn flaenorol ond nad yw'r canlyniadau ar gael neu na ellir cael gafael arnynt.

Cyfiawnhad ar gyfer Datguddiadau Meddygol Unigol

Roedd gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr (Gweithdrefn F) sy'n ymwneud â chyfiawnhad ac awdurdodiad wedi cael ei diweddarau ym mis Ionawr 2017.

Nid oedd y weithdrefn a ddiweddarwyd yn cyfeirio at y trefniadau ar gyfer cyfiawnhau datguddiadau y tu allan i oriau. Cadarnhaodd staff uwch nad oedd unrhyw ddatguddiadau yn cael eu cynnal. Er mwyn sicrhau cyflawnrwydd ac eglurder pellach, dylai'r cyflogwr adlewyrchu hyn yn y weithdrefn ysgrifenedig. Hefyd, dylid cadarnhau dealltwriaeth y staff o'r term protocol Archwilio ac Offer

a ddefnyddir yn y weithdrefn ysgrifenedig (Gweithdrefn F) gan nad oedd y staff yn siŵr beth oedd y protocol na ble y gellid dod o hyd iddo.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid diweddarau gweithdrefn y cyflogwr (Gweithdrefn F) i adlewyrchu'n eglur nad yw datguddiadau yn cael eu cynnal y tu allan i oriau (os bydd hyn yn parhau i fod yn wir). Hefyd, mae'n rhaid cadarnhau dealltwriaeth y staff o'r term Protocol Archwilio ac Offer.

Offer

Darparodd y cyflogwr stocrestrau cyfredol o offer radiolegol a ddefnyddir yn yr adrannau y gwnaethom ymweld â nhw. Roedd y rhain yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol o dan y RhYI(DM).

Gofal Diogel

Atal a rheoli heintiau

Gwelsom yn ystod ein harolygiad fod yr holl adrannau yn ôl pob golwg yn lân. Roedd gel glanhau dwylo ar gael i hybu proses atal a rheoli heintiau effeithiol.

Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid yr adrannau.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Roedd strwythur rheoli ar waith. Canfuom fod rhywfaint o gynnydd wedi cael ei wneud i fynd i'r afael â'r gwelliant yr oedd ei angen a nodwyd o'n harolygiad diwethaf.

Roedd un o'r (ddwy) swydd wag ar y staff uwch wedi cael ei llenwi. Roedd Cyfarwyddwr Therapi a Gwyddor Iechyd wedi cael ei benodi. Fodd bynnag, roedd y swydd Pennaeth Radiograffeg Proffesiynol yn dal i fod yn wag.

Roedd angen diwygio a diweddarau rhai o weithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr ymhellach. Hefyd, mae'n rhaid gwneud ymdrechion pellach i ddangos bod staff sy'n cyflawni swyddogaethau ymarferwyr a gweithredwyr wedi eu hyfforddi'n briodol a bod ganddynt hawl i wneud hynny.

Meysydd i'w gwella a nodwyd gennym yn ein harolygiad diwethaf

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

- Diwygio'r Polisi Diogelwch Ymbelydredd Ïoneiddio ysgrifenedig i ychwanegu eglurder ac i adlewyrchu trefniadau cyfredol
- Y trefniadau ar gyfer polisïau a gweithdrefnau cyfredol sy'n ymwneud â'r RhYÍ(DM) ac ar gyfer gwneud staff yn ymwybodol ohonynt a'u darparu iddynt
- Y trefniadau i sicrhau bod unigolion wedi eu hyfforddi'n briodol a bod ganddynt hawl fel ymarferwyr a gweithredwyr i gyflawni'r tasgau gofynnol

- Diwygio gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr sy'n ymwneud â hawl a nodi deiliaid dyletswyddau i nodi grwpiau staff yn eglur, cwmpas arfer a gofynion hyfforddiant ar gyfer atgyfeirwyr, ymarferwyr a gweithredwyr â hawl
- Diwygio gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr sy'n ymwneud ag adrodd digwyddiadau
- Gofynnwyd i'r cyflogwr roi diweddariad i AGIC am y cynnydd o ran penodi Pennaeth Radiograffeg Proffesiynol (swydd a oedd yn wag ar y pryd) a manylion sut y mae'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â'r swydd hon yn cael eu cyflawni'n effeithiol yn y cyfamser.

Pa gamau y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau canlynol yn ei gynllun gwella:

- Diwygio'r polisi erbyn 1 Chwefror 2017
- Tynnu'r holl weithdrefnau ysgrifenedig nad ydynt yn gyfredol allan o adrannau ar unwaith. Fe'n hysbyswyd bod gweithdrefnau cyfredol ar gael ar fewnrwyd y bwrdd iechyd ac mai cyfrifoldeb arweinydd tîm / rheolwyr oedd sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r rhain. Fe'n hysbyswyd hefyd mai cyfrifoldeb y staff oedd darllen y rhain. Roedd taenlen yn mynd i gael ei chyflwyno i brofi hyn erbyn 31 Ionawr 2017.
- Adolygu a diwygio gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr sy'n ymwneud â hawl erbyn 1 Chwefror 2017. Byddai cofnodion hyfforddiant ar gyfer staff perthnasol ar gael a byddai hawl i staff nad ydynt yn staff y bwrdd iechyd trwy gytundebau lefel gwasanaeth.
- Cytuno'n ffurfiol erbyn 16 Rhagfyr 2016 i fyrddau iechyd cyfagos ddarparu cymorth gyda threfniadau llywodraethu clinigol.
- Roedd cyfrifoldebau Rhŷi(DM) yn parhau i gael eu dirprwyo i'r Pennaeth Therapïau gyda chymorth gan arweinwyr tîm. Byddai ymdrechion yn parhau i recriwtio Pennaeth Radiograffeg.

Yr hyn a ganfuom yn yr arolygiad dilynol

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Ers ein harolygiad diwethaf, roedd y bwrdd iechyd wedi recriwtio'n llwyddiannus i'r swydd Cyfarwyddwr Therapïau a Gwyddor Iechyd. Roedd y swydd Pennaeth Radiograffeg Proffesiynol yn dal i fod yn wag ar adeg ein harolygiad dilynol. Roedd ymdrechion yn parhau i recriwtio i'r swydd hon.

Rhoddodd staff uwch sicrwydd bod trefniadau dros dro wedi cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod y cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â'r swydd hon yn cael eu cwblhau. Roedd y trefniadau hyn yn cynnwys cymorth proffesiynol cryfach i dimau staff. Cadarnhaodd staff uwch fod y trefniadau hyn wedi eu ffurfioli mewn cytundebau lefel gwasanaeth rhwng Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a byrddau iechyd cyfagos.

Dyletswyddau'r cyflogwr

Hawl

Mae'r RhYŪ(DM) yn diffinio pedwar o ddeiliaid dyletswydd, sef y cyflogwr³, yr atgyfeiriwr⁴, yr ymarferwr⁵ a'r gweithredwr.⁶

Roedd gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr (Gweithdrefn C) sy'n ymwneud â hawl a nodi atgyfeirwyr, ymarferwyr a gweithredwyr wedi cael ei diweddarau ym mis Ionawr 2017.

Nodwyd y deiliaid dyletswyddau hyn gan y grŵp staff ac roedd y weithdrefn yn nodi cwmpas yr ymarfer a'r lefel ddisgwyliedig o hyfforddiant ar gyfer pob grŵp staff. Fodd bynnag, nid oedd y weithdrefn yn cynnwys yr holl grwpiau staff hynny y dywedwyd eu bod yn cyflawni swyddogaethau ymarferwyr a gweithredwyr o hyd. Er enghraifft, podiatryddion, llawfeddygon orthopedig, deintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol ac ymarferwyr nyrsio. Gwelsom fod cyfeiriadau'n dal i gael eu gwneud at ymarferwyr deintyddol a gweithwyr deintyddol proffesiynol. Rydym yn argymhell felly bod y weithdrefn ysgrifenedig yn cael ei diwygio i ddiffinio'n eglur yr ymarferwr deintyddol neu'r

³ Cyflogwr – Unrhyw berson naturiol neu gyfreithiol sy'n cyflawni neu'n cyflogi eraill i gyflawni datguddiadau meddygol neu agweddau ymarferol mewn cyfleuster radiolegol penodol.

⁴ Atgyfeiriwr – Gweithiwr gofal iechyd cofrestredig sydd â'r hawl, yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr, i atgyfeirio unigolion ar gyfer datguddiadau meddygol.

⁵ Ymarferwr – Gweithiwr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig sydd â'r hawl, yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr, i gymryd cyfrifoldeb am ddatguddiad meddygol unigol. Cyfiawnhau datguddiadau meddygol yw prif swyddogaeth yr ymarferwr.

⁶ Gweithredwr – Unrhyw berson sydd â'r hawl, yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr, i gyflawni'r agweddau ymarferol ar ddatguddiad meddygol.

gweithiwr deintyddol proffesiynol yr oedd y rhain yn cyfeirio ato. Efallai yr hoffai'r cyflogwr gyfeirio at y termau hynny a ddefnyddir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'u defnyddio.

Roedd y weithdrefn ysgrifenedig yn cyfeirio at hawl ymarferwyr a gweithredwyr trwy drefniadau cytundeb lefel gwasanaeth. Gwnaethom adolygu enghraifft o ddogfen cytundeb lefel gwasanaeth ac nid oedd yn eglur sut yr oedd hon yn rhoi hawl. Cadarnhaodd trafodaethau â staff uwch fod hawl ar sail unigol ac yn cael ei dangos trwy ffurflen hawl wedi ei llofnodi. Er i ni weld y ffurflen dempled i'w defnyddio, nid oedd y broses hawl wedi cael ei chwblhau yn yr un o'r ddau safle ysbyty y gwnaethom eu harolygu.

Nodwyd gennym hefyd bod angen diweddarau rhai elfennau eraill o'r weithdrefn ysgrifenedig i adlewyrchu arfer cyfredol. Er enghraifft, cyfeiriwyd at atgyfeirio cleifion ar gyfer triniaeth llyncu bariwm.⁷ Fe'n hysbyswyd gan uwch staff nad yw'r driniaeth hon yn cael ei chyflawni yn yr un o'r adrannau yn y bwrdd iechyd. Gwnaed cyfeiriadau at gofrestrriad HPC ond HCPC ddylai hyn fod⁸.

Roedd matrices hyfforddiant wedi cael ei ddatblygu ers ein harolygiad blaenorol. Roedd hwn wedi cael ei roi ar waith yn Ysbyty Aberhonddu ac fe'n hysbyswyd y byddai'n cael ei ddefnyddio gan adrannau eraill o fewn y bwrdd iechyd.

Mae AGIC yn cydnabod y cynnydd a wnaed ers ein harolygiad blaenorol. Fodd bynnag, mae angen i'r cyflogwr wneud rhagor o waith i ddangos bod staff sy'n cyflawni swyddogaethau ymarferwr a gweithredwr wedi eu hyfforddi'n briodol, yn gymwys a bod ganddynt hawl i wneud hynny o fewn cwrpas arfer a gytunwyd. Mae angen cwblhau hyn fel mater o flaenoriaeth a rhoddodd staff uwch sicrwydd llafar cadarn y byddai hyn yn cael ei gyflawni erbyn dechrau mis Chwefror 2018.

Gweithdrefnau a phrotocolau

Roedd dogfen Polisi Diogelwch Ymbelydredd Ïoneiddio'r bwrdd iechyd wedi cael ei diweddarau ym mis Ionawr 2017.

⁷ Llyncu bariwm – mae'r driniaeth hon yn defnyddio hylif bariwm ac archwiliadau pelydr-X i chwilio am broblemau yn y llwnc (oesoffagws).

⁸ Y Cyngor Gweithwyr Iechyd a Gofal Proffesiynol. <http://www.hpc-uk.org/aboutus/>

Roedd Prif Weithredwr y bwrdd iechyd wedi ei ddynodi fel y cyflogwr. Gwelir hyn yn gyffredin ac mae'n cyd-fynd â'r canllawiau cenedlaethol ar weithredu deddfwriaeth RhYİ(DM) fel y mae'n berthnasol i radioleg ddiagnostig ac ymyrrol.

Roedd y ddogfen wedi'u diweddarau yn nodi mwy o fanylion am ddyletswyddau'r cyflogwr. Roedd cyfle o hyd i'r rhain gael eu gwneud yn fwy eglur ac i ddisgrifio mewn termau ymarferol yr hyn sy'n digwydd yn weithredol. Nodir dyletswyddau'r cyflogwr yn Rheoliad 4 Rheoliadau Ymbelydredd İoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 a gwnaethom argymhell y dylid defnyddio hwn fel canllaw i nodi holl ddyletswyddau'r cyflogwr ym Mholisi Diogelwch Ymbelydredd İoneiddio'r bwrdd iechyd.

Roedd y polisi wedi'i ddiweddarau yn adlewyrchu'n gywir bod fflworosgopeg yn cael ei chyflawni yn y theatrau yn Ysbyty Aberhonddu ac Ysbyty Llandrindod yn unig. Roedd y cyfeiriad at Ysbyty Coffa Fictoria (y Trallwng) wedi cael ei ddileu.

Roedd y ddogfen bolisi uchod yn cynnwys y strwythur sefydliadol sy'n dangos y llinellau adrodd, atebolrwydd a dirprwyaeth o ran RhYİ(DM). O ystyried y cyfnod yr oedd y swydd Pennaeth Radiograffeg Proffesiynol wedi bod yn wag (ac yn parhau i fod yn wag), roedd angen i'r ddogfen bolisi gynnwys manylion pwy sy'n gyfrifol am gyflawni'r swyddogaethau hyn yn y cyfamser. Diben hyn oedd hybu eglurder i'r timau staff.

Gwelsom fod gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig wedi cael eu diweddarau. Fodd bynnag, byddai nifer o'r gweithdrefnau yn elwa o gael eu hadolygu a'u diwygio ymhellach i adlewyrchu arfer cyfredol ar draws yr adrannau yr ymwelom â nhw. Rydym wedi cyfeirio at y gweithdrefnau hyn trwy gydol yr adroddiad hwn ac maent yn cynnwys:

- Gweithdrefn A – Adnabod cleifion
- Gweithdrefn C – Nodi atgyfeirwyr, ymarferwyr a gweithredwyr
- Gweithdrefn E – Datguddiadau meddygol-gyfreithiol / sgrinio iechyd Cat II
- Gweithdrefn F – Cyfiawnhad / awdurdodiad ar gyfer datguddiad meddygol
- Gweithdrefn J – Datguddiadau uwch na'r bwriad / dosau na fwriadwyd ac achosion trwch blewyn

Yn ogystal â'r uchod dylid diwygio'r gweithdrefnau ysgrifenedig canlynol,

- Gweithdrefn B – Menywod o'r oedran i gael plant
- Gweithdrefn G – Gwerthuso datguddiad
- Gweithdrefn H – Cofnodi dos mewn datguddiad meddygol
- Gweithdrefn I – Monitro lefelau atgyfeirio diagnostig (DRLS)

i adlewyrchu'n gywir nad yw archwiliadau sgan CT dos uchel yn cael eu cynnal (fel y cadarnhawyd gan staff uwch); i gynnwys yr holl grwpiau staff sydd â hawl i gynnal a chofnodi gwerthusiad clinigol; i gwblhau'r frawddeg - '*This only applies to the X-ray equipment in..*' ar dudalen 31 y gweithdrefnau; ac i gynnwys manylion yr hyn y dylai'r staff ei gofnodi a'r weithdrefn ar gyfer adrodd pryderon, yn y drefn honno.

Cawsom sgysiau â'r staff yn yr adrannau radiograffeg a'r theatrau yn y ddau ysbyty. Roeddent yn gwybod sut i gael mynediad at bolisiau'r bwrdd iechyd a gweithdrefnau RhYŷ(DM) y cyflogwr trwy safle mewnwyd y bwrdd iechyd. Roedd fersiynau argraffedig hefyd ar gael yn y ddwy adran radiograffeg a gwelsom fod y rhain yn gyfredol.

Hysbysiadau am ddigwyddiadau

Roedd gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr (Gweithdrefn J) sy'n ymwneud ag adrodd digwyddiadau wedi cael ei diweddarau ym mis Ionawr 2017.

Roedd wedi cael ei ddiweddarau i gynnwys dolen i wefan AGIC fel y gallai'r staff wirio pa wybodaeth mae ei hangen wrth hysbysu AGIC am ddigwyddiad. Er bod dolen wedi cael ei chynnwys, roedd Atodiad 2 y weithdrefn yn dal i gyfeirio at wybodaeth nad oes ei hangen ar AGIC ar yr adeg adrodd. Yn hytrach, y wybodaeth y cyfeirir ati yn y weithdrefn yw'r hyn sy'n ofynnol pan fydd y cyflogwr yn cyflwyno'r adroddiad ymchwilio i AGIC.

Hefyd, roedd Atodiad 1 yn dal i gyfeirio at ddefnyddio lluosogwyr DRL wrth benderfynu a oedd claf wedi derbyn dos (datguddio meddygol) 'llawer uwch na'r bwriad'. Dylai'r cyflogwr gyfeirio at ganllawiau cyfredol a gyhoeddwyd gan yr

Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch⁹ a'r Adran Iechyd¹⁰ wrth benderfynu pryd i adrodd digwyddiadau. Dylid dileu'r cyfeiriad at luosogwyr DRL felly, er mwyn osgoi dryswch.

Gwelsom fod copïau o siart llif wedi ei ddiweddarau yn cael eu harddangos o fewn adrannau. Roedd y rhain yn nodi'r camau i'w cymryd yn dilyn digwyddiad posibl a'u nod oedd bod yn gymorth i'r staff gofio fel eu bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau yn hyn o beth.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid diweddarau'r Polisi Diogelwch Ymbelydredd Ïoneiddio i gynnwys manylion y trefniadau am sut y mae cyfrifoldebau a swyddogaethau'r Pennaeth Radiograffeg Proffesiynol yn cael eu cyflawni a chan bwy tra bod y swydd yn parhau i fod yn wag.

Mae'n rhaid diweddarau gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr (Gweithdrefn C) sy'n ymwneud â hawl i nodi'n eglur yr holl grwpiau staff, y cwmpas ymarfer a'r gofynion hyfforddiant ar gyfer ymarferwyr a gweithredwyr â hawl. Mae'n rhaid adolygu'r weithdrefn ysgrifenedig yn llawn i sicrhau ei bod yn adlewyrchu trefniadau cyfredol a thermau cywir.

Mae'n rhaid i'r cyflogwr wneud trefniadau i ddangos bod staff sy'n cyflawni swyddogaethau atgyfeiriwr, ymarferwr a gweithredwr wedi eu hyfforddi'n briodol, yn gymwys a bod ganddynt hawl i wneud hynny o fewn cwmpas ymarfer a gytunwyd.

Mae'n rhaid diweddarau gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr (Gweithdrefn J) sy'n ymwneud ag adrodd digwyddiadau i adlewyrchu'n gywir y wybodaeth i'w hadrodd i AGIC os bydd digwyddiad RhYĪ(DM) adroddadwy. Dylid dileu cyfeiriadau at luosogwyr DRL er mwyn osgoi dryswch.

⁹ Nodyn Cyfarwyddyd PM77 - *Equipment used in connection with medical exposure* (Trydydd Argraffiad). Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. <http://www.hse.gov.uk/pubns/guidance/pm77.htm>

¹⁰ *Guidance on investigation and notification of medical exposures much greater than intended* (16 Ionawr 2017). Yr Adran Iechyd. <https://www.gov.uk/government/publications/the-ionising-radiation-medical-exposure-regulations-2000>

Dylid diwygio gweithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr (Gweithdrefnau B, G, H ac I) i:

- adlewyrchu'n gywir nad yw archwiliadau sgan CT dos uchel yn cael eu cynnal (fel y cadarnhawyd gan staff uwch) – Gweithdrefn B
- cynnwys yr holl grwpiau staff sydd â hawl i gynnal gwerthusiad clinigol cofnod – Gweithdrefn G
- cwblhau'r frawddeg – '*This only applies to the X-ray equipment in..*' ar dudalen 31 y gweithdrefnau – Gweithdrefn H
- cynnwys manylion yr hyn y dylai'r staff ei gofnodi a'r weithdrefn ar gyfer adrodd pryderon – Gweithdrefn I

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau, maent wedi'u nodi yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bo'n berthnasol):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol yn glŷn â diogelwch cleifion lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn ein hysbysu o'r camau gweithredu brys maent yn eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y maent yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i sicrhau AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws adrannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn cynnal arolygiadau dilynol

Gall arolygiadau dilynol fod gyda rhybudd neu'n ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd gan fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y ffordd y maent yn gweithredu fel rheol. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael tua 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Diben ein harolygiadau dilynol yw gweld pa welliannau y mae'r gwasanaeth wedi eu gwneud ers ein harolygiad diwethaf.

Bydd ein harolygiadau dilynol yn canolbwyntio ar feysydd penodol i'w gwella a nodwyd gennym yn yr arolygiad diwethaf. Mae hyn yn golygu y byddwn yn canolbwyntio ar y [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) sy'n berthnasol i'r meysydd hyn yn unig.

Byddwn yn ystyried agweddau perthnasol ar y canlynol yn ystod ein harolygiadau dilynol:

- Ansawdd profiad y claf
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth

Caiff adborth ei wneud ar gael i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol. Byddwn hefyd yn amlygu unrhyw feysydd y mae angen eu gwella o hyd.

Ceir rhagor o fanylion am [sut y mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y claf	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol.			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Ysbyty Aberhonddu ac Ysbyty Llandrindod

Dyddiad yr arolygiad: 6 a 7 Tachwedd 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu am y camau brys y maent yn eu cymryd.

Gwelliant uniongyrchol sydd ei angen	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw welliannau uniongyrchol yn yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd ag atebolrwydd a chyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella'n cael ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Ysbyty Aberhonddu ac Ysbyty Llandrindod

Dyddiad yr arolygiad: 6 a 7 Tachwedd 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y maent yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Nid oedd angen unrhyw gynllun gwella.				
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Mae'n rhaid diweddarau gweithdrefn y cyflogwr (Gweithdrefn A) sy'n ymwneud ag adnabod cleifion i gyfarwyddo'r staff ar ddull diogel a chyson o adnabod cleifion yn gywir cyn cynnal ymchwiliadau.	Y Safonau Iechyd a Gofal Safon 2.1 Safon 3.1 RhYİ(DM) Rheoliad 4(1), Atodlen 1(a)	Bydd polisïau'n cael eu diweddarau i adlewyrchu'r gwelliant mae ei angen.	Pennaeth Radiograffeg Proffesiynol (trwy gytundeb lefel gwasanaeth) a Chynghorydd Diogelwch Radiolegol (RPA)	31.01.18
Trefniadau eraill i hybu proses o adnabod	Y Safonau	Gweithdrefn ysgrifenedig gadarn i gael	Arweinwyr Tîm –	31.01.18

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
cleifion yn gywir i gael ei sefydlu fel sy'n briodol.	lechyd a Gofal Safon 2.1 Safon 3.1	ei rhoi ar waith gan yr holl adrannau i sicrhau bod manylion cleifion yn cael eu diweddarau / cywiro yn ganolog. Bydd hyn yn hybu dull diogel a chyson o sicrhau diogelwch cleifion	Gogledd a De	
Dylid diweddarau gweithdrefn y cyflogwr (Gweithdrefn E) sy'n ymwneud â datguddiadau meddygol-gyfreithiol i nodi'r eglur y camau i'w cymryd gan y staff os bydd datguddiad wedi cael ei gynnal yn flaenorol ond nad yw'r canlyniadau ar gael neu na ellir cael gafael arnynt.	Y Safonau lechyd a Gofal Safon 2.1 Safon 3.1 RhYï(DM) Rheoliad 4(1), Atodlen 1(c)	Bydd polisïau'n cael eu diweddarau i adlewyrchu'r gwelliant mae ei angen	Pennaeth Radiograffeg Proffesiynol (trwy gytundeb lefel gwasanaeth) ac RPA	31.01.18
Dylid diweddarau gweithdrefn y cyflogwr (Gweithdrefn F) i adlewyrchu'n eglur nad yw datguddiadau yn cael eu cynnal y tu allan i oriau (os bydd hyn yn parhau i fod yn wir). Hefyd, mae'n rhaid cadarnhau dealltwriaeth y staff o'r term Protocol Archwilio ac Offer.	Y Safonau lechyd a Gofal Safon 2.1 Safon 3.1 RhYï(DM) Rheoliad 6	Bydd polisïau'n cael eu diweddarau i adlewyrchu'r gwelliant mae ei angen	Pennaeth Radiograffeg (trwy gytundeb lefel gwasanaeth) ac RPA	31.01.18

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae'n rhaid diweddarau'r Polisi Diogelwch Ymbelydredd Ioneiddio i gynnwys manylion y trefniadau am sut y mae cyfrifoldebau a swyddogaethau'r Pennaeth Radiograffeg Proffesiynol yn cael eu cyflawni a chan bwy tra bod y swydd yn parhau i fod yn wag.</p>	<p>Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd</p>	<p>Bydd polisiâu'n cael eu diweddarau i adlewyrchu cytundebau lefel gwasanaeth a'r gwelliant pellach mae ei angen</p>	<p>Pennaeth Therapiau – De Powys</p>	<p>31.01.18</p>
<p>Mae'n rhaid diweddarau gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr (Gweithdrefn C) sy'n ymwneud â hawl i nodi'n eglur yr holl grwpiau staff, y cwmpas ymarfer a'r gofynion hyfforddiant ar gyfer ymarferwyr a gweithredwyr â hawl. Mae'n rhaid adolygu'r weithdrefn ysgrifenedig yn llawn i sicrhau ei bod yn adlewyrchu trefniadau cyfredol a themau cywir.</p>	<p>Y Safonau lechyd a Gofal Safon 7.1 RhYİ(DM) Rheoliad 4(1), Atodlen 1(b)</p>	<p>Bydd polisiâu'n cael eu diweddarau i adlewyrchu'r gwelliant mae ei angen</p>	<p>Pennaeth Radiograffeg Proffesiynol (trwy gytundeb lefel gwasanaeth) a RPA</p>	<p>31.01.18</p>
<p>Mae'n rhaid i'r cyflogwr wneud trefniadau i ddangos bod staff sy'n cyflawni swyddogaethau atgyfeiriwr, ymarferwr a gweithredwr wedi eu hyfforddi'n briodol, yn gymwys a bod ganddynt hawl i wneud hynny o fewn cwmpas ymarfer a gytunwyd.</p>	<p>Y Safonau lechyd a Gofal Safon 7.1 RhYİ(DM) Rheoliad 4(1), Atodlen 1(b)</p>	<p>Bydd y Bwrdd lechyd yn nodi'r holl staff sy'n cyflawni swyddogaethau atgyfeiriwr, ymarferwr a gweithredwr i sicrhau eu bod wedi eu hyfforddi'n briodol, yn gymwys a bod ganddynt hawl i wneud hynny o fewn cwmpas ymarfer a gytunwyd.</p>	<p>Pennaeth Therapiau – De / Arweinydd Tîm – Gogledd a De / Rheolwr Theatr / Rheolwyr MIU a Chyfarwyddwr</p>	<p>31.01.18</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Rheoliad 11(1) Rheoliad 11(4)		Deintyddol	
Mae'n rhaid diweddarau gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr (Gweithdrefn J) sy'n ymwneud ag adrodd digwyddiadau i adlewyrchu'n gywir y wybodaeth i'w hadrodd i AGIC os bydd digwyddiad RhYİ(DM) adroddadwy. Dylid dileu cyfeiriadau at luosogwyr DRL er mwyn osgoi dryswch.	Y Safonau lechyd a Gofal Safon 3.1 RhYİ(DM) Rheoliad 4(1), Atodlen 1(k) Rheoliad 4(5)	Bydd polisïau'n cael eu diweddarau i adlewyrchu'r gwelliant mae ei angen	Pennaeth Radiograffeg Proffesiynol (trwy gytundeb lefel gwasanaeth) a RPA	31.01.18
Dylid diwygio gweithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr (Gweithdrefnau B, G, H ac I) i: <ul style="list-style-type: none"> • adlewyrchu'n gywir nad yw archwiliadau sgan CT dos uchel yn cael eu cynnal (fel y cadarnhawyd gan staff uwch) – Gweithdrefn B • cynnwys yr holl grwpiau staff sydd â hawl i gynnal gwerthusiad clinigol cofnod – Gweithdrefn G 	Y Safonau lechyd a Gofal Safon 3.1 RhYİ(DM) Rheoliad 4(1), Atodlen 1(d), 1(f), 1(g), 1(j) Rheoliad 4(3)(b)	Bydd polisïau'n cael eu diweddarau i adlewyrchu'r gwelliant mae ei angen	Pennaeth Radiograffeg Proffesiynol (trwy gytundeb lefel gwasanaeth) a RPA	31.01.18

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<ul style="list-style-type: none"> • cwblhau'r frawddeg – '<i>This only applies to the X-ray equipment in..</i>' ar dudalen 31 y gweithdrefnau – Gweithdrefn H • cynnwys manylion yr hyn y dylai'r staff ei gofnodi a'r weithdrefn ar gyfer adrodd pryderon – Gweithdrefn I 				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd ag atebolrwydd a chyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella'n cael ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): MR DAVID MURPHY

Swydd: Cyfarwyddwr Therapiau a Gwyddor Iechyd

Dyddiad: 22 Rhagfyr 2017